TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# PeopleCert Rhithwir Ar-lein - Sylfaen PRINCE2Â® (7ed Argraffiad)



**Yn gryno**

Os ydych yn awyddus i feddu ar sgiliau o'r radd flaenaf yn ymwneud â rheoli prosiectau, neu os ydych eisiau gwella eich siawns o gael gwaith fel rheolwr prosiectau proffesiynol, mae ennill cymhwyster PRINCE2 yn hanfodol oherwydd dyma'r dull a roddir ar waith amlaf drwy'r byd yn y maes Rheoli Prosiectau.

Mae cymwysterau PRINCE2 o fudd i unigolion a sefydliadau. Fel unigolyn, bydd cymwysterau o'r fath yn gwella eich cyflogadwyedd a'ch rhagolygon gyrfa yn gyffredinol; a bydd sefydliadau sy'n rhoi methodoleg PRINCE2 ar waith yn elwa ar allu hwyluso prosiectau llwyddiannus yn gyson, gyda'u gweithwyr yn defnyddio iaith gyffredin a phrosesau pendant.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... unrhyw un sydd dros 19 oed, yn byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn

...unrhyw un sydd eisiau gwella'i gyflogadwyedd ar gyfer rôl yn y maes rheoli prosiectau

...darpar reolwyr prosiectau/rheolwyr prosiectau presennol neu weithwyr proffesiynol sy'n rheoli prosiectau. Mae hefyd yn berthnasol i weithwyr allweddol eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflawni prosiectau

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r ardystiad Lefel Sylfaen yn cyflwyno dull PRINCE2, gyda'r nod o gadarnhau eich bod yn gwybod ac yn deall dull PRINCE2 yn ddigon da i allu gweithio'n effeithiol gyda thîm rheoli prosiect (neu fel aelod o dîm tîm rheoli prosiect) sy'n gweithredu mewn amgylchedd PRINCE2. Mae maes llafur lefel Sylfaen PRINCE2 (7fed argraffiad) fel a ganlyn:

Egwyddorion PRINCE2: Cyfiawnhad busnes, dysgu ar sail profiad, rolau a chyfrifoldebau pendant, rheoli fesul cam, rheoli trwy eithriad, canolbwyntio ar gynhyrchion a theilwra i weddu i'r cynnyrch
Themâu PRINCE2: Achos Busnes, Trefnu, Ansawdd, Cynlluniau, Risg, Newid a Chynnydd
Prosesau PRINCE2: Dechrau prosiect, cyfarwyddo prosiect, cychwyn prosiect, rheoli camau, rheoli'r modd y darperir cynhyrchion, rheoli terfynau camau a chau prosiect

**Gofynion Mynediad**

Gall unrhyw un ymgymryd â chymhwyster Sylfaen PRINCE2®, ond byddai'n ddefnyddiol ichi feddu eisoes ar ddealltwriaeth sylfaenol o reoli prosiectau.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Darperir y cwrs hwn drwy ddosbarth rhithiol. Mae dosbarthiadau rhithiol yn gyfwerth â chyrsiau dosbarth wyneb yn wyneb, ond fe'u darperir mewn amgylchedd ar-lein.

Bydd angen i chi neilltuo 3 diwrnod ar gyfer mynychu'r cwrs hwn.

Mae'r cwrs yn cynnwys arholiadau sy'n cael eu goruchwylio ar-lein, ac mae angen dyfais sydd wedi cysylltu â'r we gyda meicroffon a gwe-gamera.